Cyngor Abertawe
Swansea Council

**Gwaith Stryd**
**Adran Priffyrdd a Chludiant**
Ystad Ddiwydiannol Players, Clydach,
Abertawe SA6 5BJ
streetworks@abertawe.gov.uk

# GOLEUADAU TRAFFIG CLUDADWY

## DEDDF FFYRDD NEWYDD A GWAITH STRYD 1991

## RHEOLIADAU A CHYFARWYDDIADAU CYFFREDINOL ARWYDDION TRAFFIG 2016 Rhif 362.

Rhaid anfon neu ffacsio'r ffurflen hon i'r Adran Gwaith Stryd yn y cyfeiriad/rhif ffacs a ddangosir isod.
Darllenwch y nodiadau ar yr ochr arall i gael arweiniad neu ymgynghorwch â'r swyddfa a nodir isod.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **CAIS AM OLEUADAU RHEOLI AMLWEDD** | | **Eich Cyf:** | |
| **HYSBYSIAD O OLEUADAU RHEOLI DWYFFORDD** | | **Cyf SA:** | |

*(ticiwch y blwch)*

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **O:** | | | | **ENW CYSWLLT:** | | | | | |
| | | | | **FFÔN:** | | | | | |
| | | | | **FFACS:** | | | | | |
| | | | | **MANYLION CYSWLLT Y TU ALLAN I ORIAU:** | | | | | |
| **CLEIENT:** | | | | **FFÔN:** | | | | | |
| **ARGYFWNG/BRYS - 2 AWR** | | **MAWR - 1 MIS** | | | **CYNLLUNIEDIG - 7 NIWRNOD** | | **3 DIWRNOD** | | **UN DIWRNOD** |
| **DYDDIAD DECHRAU:** | | | | **DYDDIAD GORFFEN:** | | | | | |
| **LLEOLIAD Y GWAITH:** | | | | | | | | | |
| **A yw'r gwaith o fewn 200m i'r goleuadau presennol:** | **Ydy** | | **Nac ydy** | | **Os ydy, siaradwch â'r Awdurdod Priffyrdd.** | | | | |
| **Rhif y FFORDD:** | **CYF GRID A.O.:** | | | | **A YW'R SAFLE'N CYNNWYS CYFFORDD: YDY / NAC YDY*** | | | | |
| **SEFYLLFA SENSITIF O RAN TRAFFIG? YDY*/ NAC YDY* OS YDY, SIARADWCH Â'R AWDURDOD PRIFFYRDD.** | | | | | | | | | |
| **PWRPAS Y GWAITH:** | | | | | | | | | |
| **ORIAU GWEITHREDU:** | **GWEITHREDU YN YSTOD DIWRNOD GWAITH (h.y. o 7.30am i 4.30pm)**<br>**GWEITHREDU YN YSTOD CYFNODAU TAWEL (h.y. o 9.00am i 3pm)** | | | | | **GWEITHREDU 24 AWR** | | | |

| | |
|---|---|
| **MAE ANGEN YR WYBODAETH YCHWANEGOL GANLYNOL ER MWYN CYMERADWYO GWEITHREDIAD AMLWEDD** | |
| **AMSERU AMLWEDD** | |
| Angen byrddau 'Stop' ac 'Ewch': | **Nifer Y GOLEUADAU:** |
| **4 Copi o'r cynlluniau safle a'r cynlluniau lleoliad yn dangos safle'r goleuadau** | |

**DATGANIAD:**
**Rwy'n ardystio trwy hyn y bydd y goleuadau traffig cludadwy a ddefnyddir o fath a gymeradwyir ar hyn o bryd gan yr Adran Drafnidiaeth a Llywodraeth Cymru:**

To receive this information in an alternative format, or in English, please contact the above.
I dderbyn yr wybodaeth hon mewn fformat arall neu yn Gymraeg, cysylltwch â'r person uchod.

**LLOFNOD:**________________________________________**DYDDIAD:**

## *AT DDEFNYDD YR AWDURDOD PRIFFYRDD YN UNIG*

CYMERADWYO'R SAFLE - RHEOLIADAU A CHYFARWYDDIADAU CYFFREDINOL ARWYDDION TRAFFIG 2016

Mae CYNGOR ABERTAWE fel yr Awdurdod Priffyrdd ar gyfer y ffordd/ffyrdd lle mae'r safleoedd a nodir uchod wedi'u lleoli:
SYLWER: Yn achos CEFNFFYRDD cyfeiriwch at y canllawiau (Rhif 3)

1. Yn cymeradwyo, at ddibenion Rhan 6 Atodlen 14 o Reoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016, godi a defnyddio goleuadau traffig cludadwy o fath a ragnodir yn y Rheoliadau a grybwyllwyd ar neu o fewn 2 fetr i bob un o'r safleoedd a nodir gan symbol________________ar y cynllun(iau) atodedig sydd wedi'u marcio â'r cyfeirnod(au) .
2. Yn mynnu y bydd yn amod o'r gymeradwyaeth sy'n gynwysedig ym mharagraff 1 uchod fod y goleuadau yn cael eu codi a'u defnyddio ar neu wrth ymyl y ffordd/ffyrdd ym mhob un o'r safleoedd a nodir uchod dim ond cyhyd ag y bo angen i gwblhau'r gwaith a berodd bod angen defnyddio'r goleuadau.
3. Rhoddir y gymeradwyaeth yn amodol ar yr Amodau Arbennig isod.*

LLOFNODWYD AR RAN YR AWDURDOD____________________________________DYDDIAD:
.

## CANLLAWIAU - DEFNYDDIO GOLEUADAU TRAFFIG CLUDADWY AR Y BRIFFORDD

Drwy gyflwyno'r ffurflen gais hon, mae'r ymgeisydd yn cydnabod y materion canlynol, a lle bo'n berthnasol, yn cytuno i roi sylw iddynt a'u cyflawni.

**NI DDYLID DEFNYDDIO GOLEUADAU TRAFFIG CLUDADWY <u>O DAN UNRHYW AMGYLCHIADAU</u> AR GYFER GWAITH SY'N ESTYN AR DRAWS CROESFAN REILFFORDD, NAC I REOLI TRAFFIG AR FFORDD SYDD <u>O FEWN 50 METR</u> O GROESFAN REILFFORDD SYDD Â DAU SIGNAL TRAFFIG COCH. MAE'N <u>RHAID</u> CEISIO CYNGOR YR AWDURDOD RHEILFFYRDD/TRAFNIDIAETH A CHAEL CADARNHAD O GYMERADWYAETH GAN YR IS-ADRAN GWAITH STRYD CYN I WAITH DDECHRAU GER CROESFANNAU RHEILFFORDD.**

1. Fel sy'n ofynnol gan Reoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016 Rhif 362, a Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991, rhoddir RHYBUDD i'r Awdurdod Priffyrdd pryd bynnag y bydd Goleuadau Rheoli Traffig Cludadwy yn cael eu defnyddio ar y briffordd.

2. Lle bo Goleuadau Rheoli Traffig Cludadwy i'w defnyddio ar safle sy'n cynnwys CYFFORDD, mae'n OFYNIAD STATUDOL i'r Awdurdod Priffyrdd roi CYMERADWYAETH SAFLE YSGRIFENEDIG i'w gweithredu CYN DECHRAU EU DEFNYDDIO.

3. Rhaid i geisiadau ar gyfer defnyddio goleuadau traffig cludadwy amlwedd ar **Gefnffyrdd** gael eu cymeradwyo a'u hawdurdodi gan Lywodraeth Cymru.

4. Ar gyfer awdurdodi goleuadau amlwedd ar Gefnffyrdd, dylid caniatáu o leiaf un mis i'w prosesu, ac ar Ffyrdd Sirol, dylid caniatáu o leiaf 14 diwrnod.

5. Mae angen 7 niwrnod o rybudd ar gyfer goleuadau dwyffordd, oni bai fod angen hynny o dan amodau brys.

6. Lle bo'r lleoliad yn cynnwys cyffordd, mae'n rhaid i'r cais gynnwys PEDWAR copi o gynllun sy'n dangos safleoedd y goleuadau traffig, ynghyd â manylion yr amseriadau arfaethedig.

7. Bydd gwaith i ddarparu, gweithredu a chynnal a chadw'r holl signalau, goleuadau, giardiau a ffensys er mwyn diogelu ac amddiffyn y gwaith stryd a'r gwaith ffordd, gweithwyr ac aelodau'r cyhoedd yn cael ei wneud yn unol â Phennod 8 y Llawlyfr Arwyddion Traffig, Diogelwch Gwaith Stryd a Gwaith Ffordd, Cod Ymarfer 2013, cyfarwyddebau technegol priodol a nodiadau cyngor a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Priffyrdd, yr Adran Drafnidiaeth a Llywodraeth Cymru.

8. **<u>RHAID</u>** i'r holl **GEISIADAU** a **HYSBYSIADAU** ar gyfer defnyddio Goleuadau Traffig Cludadwy gael eu hanfon drwy e-bost i'r IS-ADRAN GWAITH STRYD yn streetworks@abertawe.gov.uk

9. Mewn sefyllfaoedd **ARGYFWNG** neu **FRYS** (fel y'u diffinnir yn Neddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991) mae'n **<u>RHAID</u>** anfon y ffurflen hon drwy e-bost i'r IS-ADRAN GWAITH STRYD yn streetworks@abertawe.gov.uk a priffyrdd@abertawe.gov.uk

10. **Gofynion y Gymraeg:**

    10a. Mae'n rhaid i ymgeiswyr fod yn ymwybodol o, a chydymffurfio'n llawn â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 neu unrhyw addasiad statudol neu ailddeddfiad ohono sydd mewn grym am y tro, ac unrhyw Safonau'r Gymraeg a wneir wedyn, wrth godi

arwyddion traffig neu gynnal unrhyw gyfathrebiad cyhoeddus arall. Gellir dod o hyd i Safonau'r Gymraeg yn: https://www.comisiynyddygymraeg.cymru/sefydliadau-cyhoeddus/safonaur-gymraeg

10b. Bydd yr ymgeisydd yn indemnio'r cyngor yn erbyn unrhyw golledion gan gynnwys unrhyw gosb ariannol gan Gomisiynydd y Gymraeg, ac unrhyw rwymedigaethau, hawliadau, iawndal, achosion, dyfarniadau a threuliau gan gynnwys, ffioedd cwnsler, costau llys, a chostau cyfreithiol eraill sy'n deillio o fethiant yr ymgeisydd i gydymffurfio â gofynion cymal 10a uchod.